*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 746

# Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

## RHAN 3

Y WEITHDREFN

**Cais am adolygu penderfyniad cymhwysol**

**19.**—(1) Rhaid i gais i Weinidogion Cymru am adolygiad o benderfyniad cymhwysol gael ei wneud gan y ceisydd mewn ysgrifen, a rhaid iddo gynnwys y sail dros ei wneud.

(2) Yn achos penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu yn unig, caiff darpar fabwysiadydd, o fewn cyfnod o 40 diwrnod gwaith sy'n dechrau gyda'r dyddiad yr anfonodd yr asiantaeth fabwysiadu yr hysbysiad o'r penderfyniad cymhwysol mewn perthynas â'r darpar fabwysiadydd, wneud cais i Weinidogion Cymru am i banel gael ei gyfansoddi i adolygu'r penderfyniad hwnnw.

**Penodi panel a chynnal adolygiad**

**20.**—(1) Ar ôl cael cais a wnaed yn unol â rheoliad 19, rhaid i Weinidogion Cymru –

(a) o fewn 5 diwrnod gwaith, hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol fod y cais wedi'i wneud, drwy anfon copi o'r cais at yr asiantaeth;

(b) o fewn 5 diwrnod gwaith, anfon cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r cais at y ceisydd, a'i hysbysu o'r camau a gymerwyd o dan is-baragraff (a);

(c) o fewn 25 diwrnod gwaith, penodi panel yn unol â rheoliad 5 a phennu dyddiad, amser a lleoliad i'r panel gyfarfod at ddibenion cyfarfod adolygu ("cyfarfod adolygu");

(ch) Ar ôl cymryd y camau a ragnodwyd yn is-baragraff (c), ac o fewn dim llai na 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer adolygu, hysbysu mewn ysgrifen y ceisydd a'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol —

(i) o'r ffaith bod y panel wedi'i benodi; a

(ii) o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod adolygu.

(2) Ni chaiff y dyddiad a bennir ar gyfer yr adolygiad fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl i'r cais ddod i law Gweinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y panel yn cael yr holl bapurau perthnasol sy'n ymwneud â'r adolygiad cyn gynted ag y bo modd, ond beth bynnag ym mhen dim llai na 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer yr adolygiad.

**Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chymorth**

**21.** Rhaid i'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol ddarparu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth a chymorth y gofynnir amdanynt gan y panel o dan reoliad 12, 13, 14 neu 15, yn ôl fel y digwydd.

**Argymhelliad y panel**

**22.**—(1) Pan na fydd argymhelliad y panel yn unfrydol, rhaid i'r argymhelliad fod yn argymhelliad y mwyafrif.

(2) Caniateir i'r argymhelliad naill ai gael ei wneud a'i gyhoeddi ar ddiwedd yr adolygiad, neu ei gadw yn ôl.

(3) Rhaid i'r argymhelliad a'r rhesymau drosto, a pha un a oedd yr argymhelliad yn unfrydol ynteu'n argymhelliad mwyafrif, gael eu cofnodi'n ddi-oed mewn dogfen sydd i'w llofnodi a'i dyddio gan y cadeirydd.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddi-oed a ddim hwyrach beth bynnag na 10 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y gwneir yr argymhelliad, anfon copi o'r argymhelliad a'r rhesymau drosto at y ceisydd ac at yr asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol.

**Dyletswydd i dalu costau mewn cysylltiad ag adolygiad**

**23.** Rhaid i'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol dalu i Weinidogion Cymru pa bynnag gostau mewn cysylltiad â'r adolygiad o'r penderfyniad cymhwysol hwnnw ag a ystyrir yn rhesymol gan Weinidogion Cymru.